

Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 29 Mehefin 2017 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 23 Mehefin 2017.

Yn

bresennol: Y Cynghorydd Sir Derbyshire (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Congreve, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Caerhirfryn, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Murphy, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

22 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

23 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

-

Cynghorydd	Eitem	Buddiant
Y Cynghorydd Phil Bale	Eitem 6 - Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol 2016-2017	Buddiant Personol fel Cyfaill yr Hen Lyfrgell

24 : COFNODION

Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 25 Mai 2017 fel gwir gofnod yn amodol ar y diwygiad canlynol:

PENDERFYNWYD - Yr etholir y Cynghorydd Dan De'Ath yn Ddirprwy Arglwydd Faer a Dirprwy Gadeirydd dros Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ym Mlwyddyn Drefol 2017 – 2018.

25 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol gan Aelodau Etholedig:

- 1 Y Cynhorydd Kathryn Kelloway – 11 llofnod yn galw ar y Cyngor i osod llinellau melyn dwbl ar y ffordd yn Gwynant Crescent;
- 2 Y Cynghorydd Kathryn Kelloway – 13 llofnod yn galw ar y Cyngor i gytuno i Lefydd Parcio Preswyl ar Heath Halt Road;
- 3 Y Cynghorydd Kathryn Kelloway – 32 llofnod yn galw ar y Cyngor i osod sicén ar Hollybush Road;
- 4 Y Cynghorydd Kathryn Kelloway – 51 llofnod yn galw ar y Cyngor i gytuno i Lefydd Parcio Preswyl ar Mountbattern Road a Beaty Avenue;
- 5 Y Cynghorydd Phil Bale – 68 llofnod yn galw ar y Cyngor i wneud trefniadau i dorri'r gwair ar St Martins Crescent;
- 6 Y Cynghorydd Elaine Simmons – dros 100 llofnod yn galw ar y Cyngor i gynyddu nifer y llefydd a diogelwch yn Ysgol Gymraeg Nant Caerau;
- 7 Y Cynghorydd Rodney Berman – 2130 llofnod yn galw ar y Cyngor i gadw CAGC Heol Wedal ar agor.

26 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Er parch, gofynnodd yr Arglwydd Faer i Aelodau gymryd saib i fyfyrion am y digwyddiadau trist yn Nhŵr Grenfell a Marchnar Borough.

(Cafwyd munud o dawelwch)

Roedd yn bleser gan yr Arglwydd Faer i gynrychiolwyr o RSPB a Bug Life ymuno ag ef yn Fferm Y Fforest i lansio ei Ymgyrch Codi Arian Elusennol yn 2017/18. Edrychodd ymlaen at weithio gyda'r ddwy elusen i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith a'u projectau a chodi arian am y gwaith rhagorol a wnânt, a gofynnodd i Gynghorwyr gefnogi'r digwyddiadau a'r gwaith codi arian amrywiol a ddigwyddai dros y flwyddyn nesaf.

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer y dinasyddion hynny o Gaerdydd a anrhydeddwyd yn Rhestr Anrhydeddi Pen-blwydd y Frenhines a'u cyflawniadau a'u cyfraniadau at fywyd cyhoeddus yng Nghaerdydd a Chymru.

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Peter Bradbury a'i wraig Llinos ar enedigaeth eu hail fab Gethin Rhys ar 16 Mehefin 2017 a dymunwyd pen-blwydd hapus i'r Cynghorydd Bale.

Hefyd, roedd yr Arglwydd Faer yn falch o gydnabod gwaith cyflogeion dros y mis diwethaf; -

Cynghrair Y Pencampwyr UEFA

Llongyfarchiadau i bawb a gyfrannodd at lwyddiant cynnal un o ddigwyddiadau chwaraeon mwyaf y byd fis diwethaf; a'r miloedd o bobl, gan gynnwys partneriaid yn y sector cyhoeddus, busnesau lleol a chymdogion y ddinas-ranbarth a weithio'n mor ddygn y tu ôl i'r llen i sicrhau bod y 170,000 a ddaeth i'r ddinas yn cael profiad bythgofiadwy.

Diolch i staff Cyngor Caerdydd o bob gwasanaeth am gynnal digwyddiad o'r radd flaenaf.

Amgueddfa Stori Caerdydd

Llongyfarchiadau i Amgueddfa Stori Caerdydd am gyrraedd rhestr fer Gwobr Amgueddfeydd i Deuluoedd. Cynhelir y gwobrau blynyddol pwysig hyn gan yr elusen Kids in Museums, sef y gwobrau amgueddfeydd mwyaf ym Mhrydain. Cafodd yr amgueddfa ganmoliaeth am ei gwaith cymunedol rhyngweithiol ac am gynnal digwyddiadau sy'n hyrwyddo sgiliau iaith.

Gwasanaeth Hirdymor Gofalwyr Maeth

Fel rhan o bythefnos Gofal Maeth fis diwethaf, cydnabu a gwobrwyodd Gwasanaethau Maethu'r Cyngor ofalwyr maeth sydd wedi rhoi dros ugain mlynedd o ofal i blant agored i niwed yng Nghaerdydd. Diolchwn i'n holl ofalwyr maeth sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc Caerdydd yn awr eu hangen.

Gwefan y Cyngor

Llongyfarchiadau i Dîm y We a enillodd "Unedol Gorau Cymru", yn gwneud www.caerdydd.gov.uk y wefan awdurdod lleol orau yng Nghymru yng ngwobrau "Better Connect Connected" SOCITM yn Birmingham.

27 : SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-17

Cafodd y Cyngor yr adroddiad a gofynnwyd i gytuno a chymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2016 – 2017 cyn ei gyhoeddi'n unol â Safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 erbyn 30 Mehefin 2017.

Prif nod y safonau statudol oedd sicrhau na thriniwyd y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gyda phwyslais ar weithgarwch yn cynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na phwysleisio ar angen i ddefnyddiwr gwasanaeth neu gyflogai unigol ofyn am wybodaeth yn Gymraeg.

Cynigiwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Owen Jones.

Hwn oedd yr adroddiad cyntaf ers cyflwyno'r safonau a dangoswyd cynnydd yn cael ei wneud a chynorthwywyd staff i gynnig gwasanaethau dwyieithog. Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a rhoi statws cydradd i'r ddwy iaith. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a rhoi cyfleoedd mewn addysg i ddysgu a defnyddio Cymraeg. Byddai'r Cyngor yn dal i ddatblygu a gweithredu ac ymrwymo i Safonau'r Gymraeg gan weithredu'r Strategaeth 5 mlynedd a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2017.

Cododd aelodau nifer o faterion yn ystod y ddadl: -

- cyflawniadau a chynnydd wrth gyflawni Strategaeth y Gymraeg;
- nifer y safonau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyrraedd ac awgrym i gyfuno rhai o'r safonau; yr angen i geisio eglurhad ynghylch rhai o'r safonau a lefelau cydymffurfiaeth;
- lleoliad Canolfan Gymraeg Yr Hen Lyfrgell; arferion cynllunio busnes a'r defnydd o arian cyhoeddus;
- rhoi cyfleoedd dysgu i gyflogeion ac aelodau etholedig;

- sicrhau nad oedd pobl na allant siarad Cymraeg dan anfantais;
- rhoi cyfleoedd addysg ac ôl-addysgol; a
- pwysigrwydd unigrwydd diwylliannol iaith genedlaethol.

Ymatebodd yr Arweinydd i'r pwyntiau a godwyd.

PENDERFYNWYD: Y Cyngor i gymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2016/17 yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) erbyn 30 Mehefin 2017.

28 : DATGANIDAU

Cafodd y Cyngor Ddatganiad gan Arweinydd y Cyngor.

Amlinellodd y Datganiad "Uchelgais Prifddinas", rhaglen bolisi'r weinyddiaeth dros y pum mlynedd nesaf. Mae dogfen 'Uchelgais Prifddinas' yn nodi rhaglen weithredu i ateb yr heriau hyn; twf, anghydraddoldeb a chynaliadwyedd. Mae'n nodi pedair blaenoriaeth i weithredu arnynt:

- Gweithio i Gaerdydd – Sicrhau bod yr holl ddinasyddion yn gallu cyfrannu at, a chael budd o, llwyddiant y ddinas.
- Gweithio dros Gymru – Arwain prifddinas sy'n creu cyfleoedd i bobl Cymru
- Gweithio i'r Dyfodol – Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.
- Gweithio i'r Gwasanaethau Cyhoeddus – Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn wyneb pwysau ariannol a galw cynyddol.

Cyfeiriodd y datganiad at "Diogelwch Tân mewn Blociau Tai Cyngor". Roedd y weinyddiaeth am sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith mewn blociau yng Nghaerdydd. Mae 9 bloc uchel o fflatiau ym meddiannaeth y Cyngor yn y ddinas. Mae bob bloc wedi cael asesiad risg cadarn a gânt eu gwirio bob 6 mis gan aseswyr cymwys o dîm cydymffurfiaeth y Cyngor. Roedd adolygiad llawn yn cael ei gynnal i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio ag arfer gorau cyfredol o ran diogelwch tân a nodi unrhyw gamau gweithredu eraill y gellid eu cymryd i leihau unrhyw risg i'n tenantiaid.

Rhoddodd y datganiad ddiweddariad ar gam cyntaf Ffordd Gyswllt newydd Bae'r Dwyrain a agorwyd yn swyddogol ar 15 Mehefin 2017. Rhoddodd y Datganiad wybodaeth am Wobrau Busnes Caerdydd 2017, a oedd yn prysur ddod yn un o'r seremonïau gwobrwyo amlycaf yng Nghymru. Amlygodd y Datganiad gau Canolfan Gyswllt Tesco â cholli dros fil o swyddi. Roedd y Cyngor wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr y cwmni i amlinellu'r pryderon dwys. O ystyried y nifer enfawr o swyddi a gaiff eu colli, gan ategu rhai Barclays yn Llanisien, mae'r Cyngor wedi gofyn i swyddogion weithio gyda phartneriaid i lunio rhaglen i ystyried sut y gall y Cyngor hyrwyddo cronfa gyfoethog o weithwyr medrus a fydd yn chwilio am swyddi eraill. Roedd y Datganiad yn cynnwys llwyddiant Cynghrair Y Pencampwyr UEFA 2017 yng Nghaerdydd ar 3 Mehefin 2017 gan eto ddangos ei rhinweddau fel dinas Ewropeaidd flaenllaw yn cynnal un o ddiwyddiadau chwaraeon mwyaf y byd.

Ymatebodd yr Arweinydd i nifer o gwestiynau a godwyd am ymateb y Cyngor i'r nifer sylweddol o swyddi a gollwyd yng Nghanolfan Gyswllt Tesco; sicrwydd ynghylch diogelwch blociau fflatiau'r awdurdod lleol a rhai preifat a chladin mewn ysgolion a chanolfannau hamdden.

29 : CWESTIYNAU LLAFAR

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD REES

Pam nad yw'r Cyngor yn cadw rhestr o gludwyr gwastraff cofrestredig a busnesau clirio tai, a fyddai'n helpu perchenogion tai wybod pwy y gallant ddibynnu arnynt i waredu eu gwastraff cartref mewn ffordd gywir a chyfreithiol?

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gynnal cronfa ddata o fusnesau cofrestredig sy'n awdurdodi i'w cludo gwastraff yng Nghymru.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ddarparu gwybodaeth well, gan gynnwys dolenni i wefannau priodol, ar wefannau y Cyngor a Cadwch Gaerdydd yn Daclus i helpu dinasyddion i gael gwared ar eu gwastraff yn gyfreithlon.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD REES

Credaf y dylai'r cyfrifoldeb orwedd gyda Dinas Caerdydd yn hytrach nag Adnoddau Naturiol Cymru a gobeithiaf y sefydlir y cyswllt a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor.

ATEB-CYNGHORYDD MICHAEL

Ceir ychydig o draws-weithio, er ei fod ar y safle 'Adnoddau Naturiol Cymru', ceir hefyd wefan o'r enw Lloegr Amgylcheddol sydd hefyd ag ef. Felly os ydych am fynd i'r safleoedd hyn mewn gwirionedd, rhaid croesyfeirio i fynd at y bobl gywir.

Yn gyffredinol os dywed rhywun maent yn mynd i ddod a symud eich sbwriel am £50 dydyn nhw ddim am ei wneud yn gyfreithlon oherwydd mae'n costio ychydig yn fwy na hynny.

Bydd y wybodaeth ar y safle cyn gynted ag y bydd modd a gobeithio y bydd yn help..

CWESTIWN-CYNGHORYDD NAUGHTON

Yn sgîl Cynghrair y Pencampwyr yn ddiweddar, a allai Cyngor Caerdydd gyhoeddi cynllun gweithredu yn manylu sut y byddant yn gweithio gydag Awdurdod Heddlu De Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau bod diogelwch a lles poblogaeth ddigartref Caerdydd ei roi wrth wraidd unrhyw gynlluniau ar gyfer dyfodol digwyddiadau mawr a gynhaliwyd yng Nghaerdydd?

ATEB-CYNGHORYDD THORNE

Wrth baratoi ar gyfer Cynghrair y Pencampwyr, roedd llety brys ychwanegol ar gael i ddarparu ar gyfer cynnydd posib yn y galw yn ystod y digwyddiad ac roedd Heddlu De Cymru a phartneriaid eraill yn ymwybodol o hyn.

Fy nealltwriaeth i yw bod y camau a gymerwyd gan yr heddlu yn ystod y digwyddiad hwn wedi'u hanelu yn fwy ar broblem cardota ymosodol, yn hytrach na chysgu ar y stryd. Yn anffodus, roedd adroddiadau yn y cyfryngau am y pwerau sydd ar gael i'r heddlu wedi arwain at rywfaint o gamddealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd.

Nid ydym yn gorfodi pobl sy'n cysgu ar y stryd oddi ar y strydoedd.

Rwyf felly wedi gofyn i swyddogion i sicrhau, ar gyfer digwyddiadau mawr yn y dyfodol, fod yr holl bartneriaid yn deall y trefniadau ac y cânt eu cyfathrebu yn effeithiol.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD NAUGHTON

Ar gyfer digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd yn y dyfodol, a fydd y Cyngor yn ceisio cymryd camau pellach a rhoi cyhoeddusrwydd i hyn cymaint â phosibl?

ATEB-CYNGHORYDD SIR THORNE

Credaf i fesurau'n amlwg gael eu rhoi ar waith, a bod cyfathrebu ar y brig. Credaf fod y cyfathrebu mae'n debyg wedi methu allan ar y strydoedd.

Yr wyf wedi ymroi, mewn unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol, ein bod yn sicrhau bod y neges yn glir ynghylch pa gamau rydym yn disgwyl eu cymryd a rhoddaf yr ymrwymiad hwnnw a byddwn yn gwneud hynny.

Cwestiwn-CYNGHORYDD McEVOY

Gallai aelod Cabinet roi diweddariad ar y defnydd o'r caeau artiffisial yng Nghaerdydd?

ATEB-CYNGHORYDD BRADBURY

Yr wyf yn cydnabod yr angen i ddarparu mwy o arwynebau chwarae artiffisial ledled y ddinas, oherwydd nifer y gohiriadau y gall tywydd gwlyb a chyflwr gwael caeau ei ddwyn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleusterau a gwnaed buddsoddiad mewn pum cae artiffisial gyda llifoleuadau ar draws y ddinas – Parc y Mynydd Bychan, Canolfan Hamdden Pentwyn, Parc Trelái, Y Marl a Gerddi'r Faenor.

Mae'r rhaglen bresennol yn caniatáu am ddim ddefnydd gan ysgolion lleol; defnydd am ddim ar adegau tawel ar gyfer clybiau lleol a chymunedau, a defnydd am ddim ar gyfer gemau plant ac iau'n unol â 'n polisi peidio â chodi tâl ar gyfer chwaraeon awyr agored iau.

Gan symud ymlaen, rwy'n rhagweld y bydd cae artiffisial newydd dyn barod i'w defnyddio yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain ym mis Rhagfyr eleni ac Ysgol Uwchradd Glyn Derw yn 2018

CWESTIWN ATEGOL – Cyngorydd McEVOY

Diolch am y wybodaeth ddiweddaraf, yr wyf yn gofyn y cwestiwn ar ran y blynyddoedd 7 ac 8 yn Ysgol Mair Ddihalog oherwydd yr oeddent yn cwyno pan euthum yno ar gyfer ymweliad am y cae ger y ganolfan hamdden yn cael ei gloi yn gyson ac am eu hawydd i gael ei agor a chwarae arno. Felly efallai os yw'r polisi i'w agor, yna efallai gallem gysylltu a gadael i'r plant wybod ei fod ar gael a sut y gellir cael mynediad ato.

ATEB-CYNGHORYDD BRADBURY

Byddwn yn sicr yn cysylltu ag ysgolion lleol i sicrhau eu bod yn gwybod y gallant gadw'r cae ac y gall plant ysgol lleol ei ddefnyddio, fel sydd wedi digwydd bob amser. Dyna pam y rhoddem yr adnodd yn y cyfleuster hwn i lenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth sydd ohoni.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD WILLIAMS

A ellir amlinellu beth mae'r Cyngor yn ei wneud i hyrwyddo manteision chwaraeon a chaeau artiffisial arbennig yng Nghaerdydd, ac fel yr Aelod Cabinet priodol, a fyddwch yn diystyru cyflwyno neu gynyddu ffioedd am gaeau?

ATEB-CYNGHORYDD BRADBURY

Na, oherwydd yr ydym yn codi tâl ar gyfer oedolion i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon, credaf eich bod yn golygu plant iau. Yr oedd y weinyddiaeth hon wedi cyflwyno chwaraeon am ddim ar gyfer clybiau iau a rhagwela'r y bydd y sefyllfa yn parhau cyhyd â bod y weinyddiaeth hon yn dal mewn grym.

CWESTIWN-CYNGHORYDD DILWAR ALI

Bydd yr aelod o'r Cabinet yn gwneud datganiad ar y tân trychinebus diweddar yn Nhŵr Grenfell yn Llundain a diogelwch blociau fflatiau uchel yng Nghaerdydd, gan gynnwys fflatiau Lydstep yn fy ward Ystum Taf?

ATEB-CYNGHORYDD THORNE

Ni fydd cyflymder a ffyrnigrwydd pur y tân yn Nhŵr Grenfell a'i effaith drasig ar y preswylwyr a'r gymuned leol yn rhywbeth yr anghofiaf byth a hoffwn gyfleu fy nghydymdeimlad i bawb yr effeithir arnynt.

Fel yr amlinellodd yr arweinydd eisoes yn ei ddatganiad cynharach, rydym yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod mesurau diogelwch tân priodol yn eu lle yn y blociau fflatiau uchel yma yng Nghaerdydd. Hoffwn ychwanegu, oherwydd y

gofynnwyd am hyn, fod pob fflat mewn blociau uchel yn hunangynhwysol i gadw'r tân o fewn y fflat

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD DILWAR ALI

Diolch i chi am eich ateb. Waeth beth fo canlyniad yr adolygiad Cyngor, ni ddylai'r un bywyd fod mewn perygl. A wnewch chi yn awr ddilyn cyngor Croydon ac eraill a gwneud ymrwymiad i osod systemau chwistrellu ym mlociau Tŵr Lydstep a blociau eraill yng Nghaerdydd?

ATEB-CYNGHORYDD THORNE

Byddaf yn rhoi ymrwymiad i wneud yn siŵr bod popeth y gallwn ei wneud yn cael ei wneud i sicrhau bod bywydau ein tenantiaid yn ddiogel. Ni allaf ymrwymo i systemau chwistrellu, ond byddwn yn dweud bod gan lawer o blociau uchel systemau chwistrellu ac yn arbennig yn y manau cymunedol oherwydd rydym wedi cael nifer o danau mewn blociau uchel dros y blynyddoedd, rhai ohonynt yn y manau cymunedol yn yr ardaloedd storio bin, felly mae chwistrellwyr wedi'u gosod mewn llawer ohonynt.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD CARTER

Yn dilyn cwestiwn Cyngorydd Ali, yr ydym yn gwerthfawrogi ei bod yn ddrud iawn i osod systemau chwistrellu ymhob bloc; a fydddech o leiaf yn barod i ystyried gosod systemau chwistrellu mewn ystafelloedd lle rydym yn adnewyddu blociau ac ystafelloedd mewn rhai achosion. Gwerthfawrogef y byddai hynny'n ddrud iawn yn ddigymell, ond pan fydd gweithwyr ar y safle a yw hyn yn rhywbeth byddwch yn barod i ystyried.

ATEB-CYNGHORYDD THORNE

Mae'n ddrwg gennyf os rhoddais yr argraff nad oeddem yn mynd i'w hystyried, nid yw hynny'n wir. Credaf y pwynt yw, os bernir taw dyna'r mesur diogelwch mwyaf priodol, yna fe wnawn hynny. Byddwn yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau eu bod yn gwbl ddiogel.

CWESTIWN-CYNGHORYDD MCKERLICH

Yr awdurdod lleol yw'r landlord i ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd; ac o ganlyniad yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal a thalu am atgyweiriadau fel y landlord ac mae'n ymddangos bod ôl-groniad sylweddol. A allwch ddweud y canlynol:

- cyfanswm bras amcan o'r gost o gynnal pob un atgyweiriad cyfredol fel landlord yn holl ysgolion Caerdydd;
- y swm a neilltuwyd yn y gyllideb bresennol (ar gyfer 2017-18) ar gyfer gwaith atgyweirio o'r fath;
- y swm a wariwyd ar atgyweiriadau o'r fath ym mhob un o flynyddoedd ariannol y 10 mlynedd diwethaf?

ATEB-CYNGHORYDD MERRY

Amcangyfrifir mai cost presennol asedau rheoli ôl-groniad y gwaith atgyweirio ar draws pob ysgol yw tua £77 miliwn.

Y 2017/18 roedd y rhaglen gyfalaf wedi neilltuo £2.052m ar hyn.

Tua £32miliwn a wariwyd ar adnewyddu asedau yn y 10 mlynedd ariannol diwethaf. £20.3miliwn yn y cyfnod rhwng 2012 a 2017, o'i gymharu â £11.7 miliwn rhwng 2007 a 2012.

Yn ogystal, rydym wedi buddsoddi mewn adeiladau ysgol newydd drwy ysgolion yr 21ain ganrif, cynlluniau Band A, ac o ganlyniad, ar ôl ei gwblhau, bydd gennym wedi tynnu tua £ 10 miliwn oddi ar yr ôl-groniad asedau.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD McKERLICH

Byddwn yn ddiolchgar os anfonwch chi imi'r ffigurau hyn drwy e-bost fel y gallaf fynd drostynt ar fy liwt fy hun ond rwy'n ei ddeall yn ei hanfod, mae ôl-groniad oddeutu £ 77 miliwn a £ 2 filiwn yn y tun i'w wario arno eleni. Dyna bosibilrwydd brawychus, beth ydych chi'n bwriadu ei ollwng i ddwyn y refeniw sydd ar gael yn fwy yn unol â galw.

ATEB-CYNGHORYDD MERRY

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer Band B, rydym wedi gwneud neu wrthi'n cynnal arolwg cyflawn o'r ystâd ysgolion. Yn amlwg mae'r rhestr ôl-groniad a phob arolwg cyflwr yn gipolwg ar y pryd, yr ydym am gael safbwynt cyffredinol o'r ystâd, a bydd yn ein harwain â'n cynigion Band B, a gallai gael gwared ar gyfran sylweddol o'r ôl-groniad. Yna credaf fod angen inni gymryd golwg tymor hwy am sut y byddwn am i'n hystâd ysgolion gyrraedd y safon.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD BOWDEN

Cynghorydd Merry, rydych chi a minnau wedi siarad yn aml am gyflwr adeiladau ysgol, a chredaf ei bod yn rhesymol dweud bod llawer o ysgolion gan gynnwys yr wyf yn Gadeirydd arni, o'r farn nad yw'r landlord sef Cyngor Caerdydd yn derbyn ei gyfrifoldebau o ran cynorthwyo â gwaith atgyweirio adeiladau; simneiau, rhai drysau wedi eu gosod sydd ddim yn perthyn ac yr ydym yn gwario symiau sylweddol o arian allan o ein cyllidebau a ddylai fod yn mynd i wasanaethau rheng flaen ar gyfer ein plant, ond mae'n rhaid iddynt fynd i mewn i adeiladau. Tybed a yw'n bryd i chi ofyn i ysgolion faint maent wedi gorfod ei wario ar eu hadeiladau ar gyfer eitemau y dylid neu fyddai'n cael eu hystyried fel arfer yn gyfrifoldeb y landlord ac efallai yn edrych i weld sut y gallwn wneud iawn iddynt ar gyfer faint o arian y maent wedi gorfod gwario?

ATEB-CYNGHORYDD MERRY

Mae'n amlwg bod dwy llyn i atgyweirio ysgolion, yr arian y mae'r ysgol ei hun yn gwario a'r arian y mae'r Cyngor yn gwario drwy reoli asedau. Fel y dywedais, byddwn

yn dechrau arolygon cyflwr ysgol gyfan a fydd yn rhoi darlun o gyflwr presennol. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ymholiadau gan ysgolion yn uniongyrchol yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi gorfod gwario arian yr oeddent yn teimlo taw cyfrifoldeb y landlordiaid oedd hynny ond gallwch anfon enghreifftiau imi.

Rwyf o'r farn, a beth yr ydym wedi ymrwymo iddo, yw bod angen inni sicrhau bod pob ysgol yn cael gwasanaeth gwell drwy reoli cyfleusterau yn ogystal a gwerth gorau.

CWESTIWN-CYNGHORYDD SANDREY

Heb os, o ran nifer yr ymwelwyr, roedd ffeinal Cynghair y Pencampwyr yn llwyddiant; fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn wedi treiddio i fusnesau lleol. Arolygodd Fforwm Trwyddedigion Caerdydd 65 o safleoedd, a nododd fod masnachu'n waeth nag ar ddydd Sadwrn arferol. Credaf yr ydym i gyd yn gwerthfawrogi'r heriau o safbwynt diogelwch; fodd bynnag, ymddengys bod y cyfathrebu ymlaen llaw yn canolbwyntio'n fawr ar archwiliadau ID a ffyrdd ar gau, gan atal pobl leol rhag ymweld â sefydliadau y gallent fel arfer fynd iddynt ar ddiwrnod y digwyddiad. Beth fydd y weinyddiaeth yn ei wneud i sicrhau bod busnesau lleol yn teimlo y budd o ddigwyddiadau mawr yn y dyfodol, ac a fydd y busnesau hyn yn cael eu digolledu?

ATEB-CYNGHORYDD GOODWAY

Byth ers 1998 pan ddechreuodd Caerdydd gynnal rhai o'r digwyddiadau mwyaf yn fyd-eang ym myd gwleidyddiaeth a chwaraeon, mae rhai busnesau lleol wedi cwyno am effaith negyddol y digwyddiadau hyn.

Mae profiad yn awgrymu taw manwerthwyr sy'n cynnig y math o nwyddau nad ydynt yn hanfodol i brynwyr a effeithir fwyaf, lle mae pobl yn syml yn prynu ar ddiwrnod arall yn lle

Roedd y digwyddiad hwn yn wahanol, rhoddodd y digwyddiad hwn sylw byd-eang mwyaf erioed Caerdydd – y digwyddiad mwyaf yn y byd eleni. Fe'i cynhaliwyd hefyd ddim ond wythnos ar ôl y digwyddiad trasig ym Manceinion.

Gyda'i gilydd, roedd lefel y cyhoeddusrwydd ac ymatebion i alwadau'r cyfryngau i wybod sut byddai y ddinas yn rheoli'r digwyddiad o bwysigrwydd byd-eang hwn wedi dwyn perswâd ar bobl nad oedd angen iddynt fod yma, ac i fynd i rywle arall neu aros yn y cartref.

Roedd rhai busnesau yn siomedig ac mae gwersi i'w dysgu. Rydym eisiau busnesau lleol i elwa, a byddwn yn ceisio sicrhau bod ganddynt bob cyfle i wneud hynny yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn digolledu busnesau nac yn ymrannu'r elw.

Wedi dweud hynny, gadewch i ni ddathlu ei lwyddiant, talu teyrnged i bawb a'i rheolai ac am adlewyrchu bod Caerdydd mewn sefyllfa well byth i wneud cais i gynnal rhagor o ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD SANDREY

Dylai Caerdydd gael ei gweld fel lle agored ar gyfer busnes mawr nid ar draul yr economi leol y mae lleoliadau trwyddedig yn asgwrn cefn iddi. Felly bydd yr aelod o'r Cabinet yn cyfarfod â'r fforwm trwyddedigion i gael adborth yn uniongyrchol ar gêm derfynol Cynghair y Pencampwyr?

ATEB-CYNGHORYDD GOODWAY

Fwy na pharod i wneud hynny.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD KEITH JONES

Bydd y Cyngorydd Goodway yn cytuno â mi bod gŵyl y Pencampwyr a welwyd ym Mae Caerdydd yn anhygoel i'r ddinas hon, ar gyfer dinasyddion, roedd pethau rhyfeddol fel cae arnofiol a welodd rhai o'r mawrion yn dod i'r ddinas hon a chafodd plant ysgol eu gweld. Roedd gweithwyr y Cyngor yn cael cyfleoedd i gynrychioli'r cyngor a chwarae ar y cae hwnnw. Cawsom weithgareddau rhyfeddol, cynulleidfaoedd enfawr, yn ffenestr siop i'r byd. Roedd balchder mawr yn ein Dinas a'n dinasyddion a bydd y Cyngor yn parhau i ddenu'r digwyddiadau anhygoel hyn sy'n creu balchder o'r fath ar gyfer ein dinasyddion ac yn gadael i'n plant gael cyfle i chwarae pêl-droed ac i fod yn arwyr y dyfodol.

ATEB-CYNGHORYDD GOODWAY

Ategaf y farn a fynegwyd yn y CWESTIWN ATEGOL hwnnw. Roedd y digwyddiad hwn yn rhoi Caerdydd ar lefel wahanol o ran beth y gall ei wneud o ran cynnal rhai o'r digwyddiadau chwaraeon mwyaf pwysig i gymryd lle yn y byd. Mae'n golygu mewn gwirionedd fod Caerdydd yn dod i oed a rhaid adnewyddu'r cynnig hwnnw ac adnewyddu ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn denu'r digwyddiadau hyn i Gaerdydd er budd ein holl fusnesau, ond yn fwy na hynny, i roi hyder i bobl sy'n byw yn y ddinas hon y gallwn, er ein cyllideb fechan, ddal i gystadlu yn erbyn y dinasoedd mwyaf yn y byd pan ddaw i gynnal digwyddiadau o'r fath.

CWESTIWN-CYNGHORYDD McEVOY

Gallai aelod Cabinet roi diweddariad ar y Cyngor yn prynu yn ôl hen dai cyngor?

ATEB-CYNGHORYDD THORNE

Fel rhan o'n strategaeth gyffredinol i gynyddu y nifer tai cyngor yng Nghaerdydd, rydym wrthi'n chwilio am eiddo addas i'w brynu oddi ar y farchnad agored. Fel arfer hen eiddo'r Cyngor yw hwn, er nad pob tro.

Wrth benderfynu pa eiddo i brynu, yr ydym yn canolbwyntio ar y rhai mewn ardaloedd sydd â galw uchel a lle mae rhaglen adeiladu o'r newydd yn debygol o ddiwallu'r angen. Rydym felly yn targedu mwy o gartrefi teuluol 3 neu 4 ystafell wely, yn ogystal â fflatiau llawr gwaelod ac eiddo wedi'u haddasu sy'n addas ar gyfer yr holl denantiaid sy'n llai symudol.

Bwriadwn brynu tua 20 eiddo eleni.

Hefyd byddwn yn prynu eiddo, lle bo angen, i gyflwyno cynlluniau ailddatblygu neu wella a gofal cymdeithasol i fodloni anghenion.

Caiff yr holl eiddo ei werthuso gan dirfesurydd annibynnol cyn prynu i sicrhau gwerth am arian.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD MCEVOY

Pan fo e.e. bloc o fflatiau â fflat i fyny'r grisiau ond y lleill yn rhai cyngor, a ystyrid ei phrynu hefyd?

ATEB-CYNGHORYDD THORNE

Credaf os oedd mewn bloc, a'r lleill yn rhai Cyngor, yna efallai y byddai'n dda, ond bydd yn dibynnu ar a yw'n bodloni anghenion tai oherwydd dyna y peth pwysig - bodloni'r angen am dai ac rydych yn gwybod yn ogystal â phawb arall sydd yn cynnal cymorthfeydd rheolaidd, mae angen enfawr yng Nghaerdydd ar gyfer mwy o dai.

CWESTIWN-CYNGHORYDD GORDON

Os gwelwch yn dda a all dinasyddion Caerdydd gael crynodeb o'r costau i'r ddinas o gynnal pencampwriaeth UEFA, a oedd costau y Cyngor ar lanhau ac adfer ein parcdiroedd yn allanol neu o gyllideb y Cyngor?

ATEB-CYNGHORYDD BRADBURY

Darparodd y Cyngor gefnogaeth sylweddol 'mewn da' o dros £500,000 ar gyfer y digwyddiad. Roedd hyn yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â:

- y ddarpariaeth o wasanaethau cyngor megis glanhau;
- defnyddio lleoliadau Cyngor megis y Castell a'r parcdir cyfagos; a
- cholli refeniw parcio ar y stryd.

Mae'r rhan fwyaf o'r costau ychwanegol at y costau 'mewn da' yn ymwneud â rheoli traffig a'r dorf, a oedd i raddau helaeth yn cynnwys costau sy'n ymwneud â darparu staff ychwanegol.

O ran costau adfer ar gyfer y Castell a pharciau amcangyfrifir mai tua £100,000 oedd y gost, ond roedd llawer o hyn yn ffurfio rhan o'r gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio beth bynnag.

Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i'r Cyngor o gynnal y gêm derfynol Cyngorair Pencampwyr oedd tua £ 1 filiwn, ond mae hynny'n cynnwys yr holl gostau mewn da yr wyf newydd eu hamlinellu.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD GORDON

Cymeradwyaf i bopeth ddigwydd yn ddiraferth a'i fod yn ddigwyddiad llwyddiannus ond, gwn mae'n swnio'n fân beth, ond collodd elusen yn ein ward o'r enw Pedal

Power £5000 y byddent wedi'i wneud fel arfer dros y penwythnos hwnnw. Mae £5000 yn swm enfawr i elusen fach, ac felly fel y sylw arall yn gynharach am golli busnes, rwy'n credu bod angen arnom i gymryd hyn i ystyriaeth.

ATEB-CYNGHORYDD BRADBURY

Yr wyf yn ymwybodol o'r achos oherwydd cefais fy e-bostio amdano, credaf fy mod wedi ymrwymo i gyfarfod â Pedal Power a chithau i drafod beth a ddigwyddodd y penwythnos hwnnw.

Gallwn ddysgu gwersi bob amser ond ailadroddaf y pwyntiau sydd wedi'u gwneud o'r blaen gan fy nghyd-aelodau Cyngorydd Goodway a'r Cyngorydd Jones ar lwyddiant y digwyddiad, ond o reidrwydd nad yw hynny liniaru colli yr ydych yn sôn am gyda Pedal Power ac yr wyf yn hapus i drafod gyda hwy eu bod yn elusen ardderchog wedi cael llawer o ymdrin â hwy a gobeithiaf y gallwn barhau berthynas dda a chynhyrchiol iawn â hwy ac yr wyf yn hapus i gyfarfod â hwy ar hyn.

CWESTIWN ATEGOL-CYNGHORYDD REES

Mae gennyf ddiddordeb gwybod swm y costau oedd i UEFA am ddod i Gaerdydd, beth oedd ei gostio i UEFA sy'n gorff wedi'i ariannu'n dda iawn fel y gwyddom i gyd.

ATEB-CYNGHORYDD BRADBURY

Ni allwn ddyfalu ynghylch faint oedd y gost i UEFA ddod i Gaerdydd, gallwn ond rhoi y ffigur y gofynnwyd imi, sef y ffigur yr oeddem yn gytundebol wedi rhwymo i ddarparu'r gwasanaethau yr wyf wedi'i grybwyll yn yr ateb hwn fel rhan o'r broses gwneud cais.

Mae'n gyfle i'w groesawu i sôn am adfer y Castell a hefyd Parc Bute a oedd ei angen beth bynnag a hefyd y ffaith y cawsom gae artiffisial newydd a ariennir drwy UEFA gwerth £85,000 yng Ngerddi'r Faenor. Cawsom seilwaith sylweddol yn ogystal â darllediadau byd-eang ac rydym wedi sôn am y 2 biliwn o bobl sy'n gwyllo'r gêm y diwrnod hwnnw, roedd eu llygaid ar Caerdydd, ond hefyd cawsom rywbeth diriaethol ar gyfer y gymuned yng Nghaerdydd yn ogystal. Yr wyf yn hapus i siarad â chi am hynny unrhyw bryd.

Cyngorydd Rees, e-bostiwyd fi yr union bwynt yr ydych yn dymuno ei wneud a byddwch yn cael ymateb ysgrifenedig fel unrhyw aelod arall.

CWESTIWN-CYNGHORYDD HUDSON

Pa iawndal sy'n cael ei geisio neu gynnig i drigolion a busnesau yr effeithir arnynt gan brosiectau hirfaith a mawr megis y cynllun adfywio Llwynbedw a lonydd bysus Manor Way/North Rd?

ATEB-CYNGHORYDD WILDE

Gallaf ddeall ei bod yn rhwystredig i drigolion a busnesau lleol pan mae y math hyn o amhariadau ond fel y gallwch werthfawrogi nid ydym fel rheol yn talu iawndal am y math hwn o waith dydd i ddydd.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD HUDSON

Hoffwn roi gwybod i'r Aelod Cabinet y gosodwyd cynsail, ac y gallaf gael y wybodaeth, lle rhoddwyd iawndal o £3,000 i rywun yn Heol y Gogledd am na allai ddefnyddio'i ddreif. Credaf y gellid edrych ar hyn gan y gallai fod adlewyrchiad mewn ardrethi busnes neu ddomestig o ran yr effaith ar fusnesau gan y cynllun adfywio sydd wedi mynd am hir ac mae'r gwaith yn dal i gael ei wneud mewn rhai llefydd.

YMATEB – Y CYNGHORYDD WILD

Ni allaf roi sylwadau ar achosion penodol ond o ran ein ail bwynt am ardrethi byddaf yn ystyried a ellid gwneud rhywbeth.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD PATEL

Fyddech chio'n cytuno, gydag unrhyw brojectau mawr, y bydd wastad rywfaint o broblemau a phe na nai byddai gennym y rheiny ni allwm fwrw ymlaen ag unrhyw rai o'n projectau yng Nghaerdydd; ond pan ddaw at iawndal, ni ddylem fod yn ei drafod yn Siambrau'r Cyngor. Mae proses briodol am iawndal y dylai Aelodau ei dilyn, yn enwedig rhai profiadol sydd wedi holi, dylent wybod y broses ac felly nid wyf o'r farn ei bod yn briodol holi amdano, fydddech chi'n cytuno.

YMATEB - CYNGHORYDD WILD

Eto gallwn ddiolch i drigolion wrth wynebu amharu, gwyddom nad yw'n hawdd a cheisiwn lle y bo'n bosibl unioni hynny a sicrhau bod digon o rybudd yn cael ei roi.

CWESTIWN O CYNGHORYDD TAYLOR

Pa bwyslais roddwch chi i blant ysgol yn gallu aros â'u ffrindiau o'r ysgol gynradd ar ôl symud i'r ysgol uwchradd.

YMATEB – CYNGHORYDD MERRY

Nid oeddwn yn siŵr a oeddech yn sôn am ddisgyblion yn symud i'r ysgol uwchradd neu'r trefniadau dosbarthiadau ar ôl ei chyrraedd felly siaradaf am y ddau.

O ran derbyniadau i ysgolion cymunedol Caerdydd, mae'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd wedi'u nodi ym Mholisi Derbyniadau'r Cyngor sydd ar gael ar-lein.

Nid yw meini prawf derbyniadau uwchradd (pan fo'r galw'n uwch na'r ddarpariaeth) yn cynnwys trosglwyddo â ffrindiau o'r ysgol gynradd.

O ran ysgolion unigol a sut maent yn trefnu plant y dyrannwyd lleoedd iddynt, mae'n amrywio rhwng ysgolion ac yn fater iddyn nhw benderyfnu arno.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD TAYLOR

Fel y gwyddom mae Derbyniadau Ysgol yn broblem ledled y ddinas ac fel yr Aelod Cabinet tybed beth yw'ch barn ar ba un ai a yw agosrwydd ysgol neu hyd preswyllo'n bwysicach wrth i rieni benderfynu ar wneud cais i'w plentyn gael lle ysgol?

YMATEB – CYNGHORYDD MERRY

Mae'r meini prawf derbyniadau presennol yn glir iawn taw agorwydd at ysgol uwchradd yw'r ffactor sy'n penderfynu.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD WILLIAMS

A allai'r Aelod Cabinet amlinellu pa gynlluniau sydd gan yr Awdurdod Lleol i gynyddu darpariaeth uwchradd drwy'r Ddinas yn enwedig yn sgîl y Cynllun Datblygu Lleol a hefyd nid yn unig y brif ffrwd uwchradd ond darpariaeth arbennig drwy'r Ddinas?

YMATEB – CYNGHORYDD MERRY

Fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach, rydym wrthi'n llunio ein cynigion i gyflwyno i ehangu ysgolion Band B i Lywodraeth Cymru a fydd hefyd yn trafod cyflwr ysgolion; cânt eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fis Awst ac rydym hefyd wrthi'n cynnal adolygiad o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ledled y Ddinas a byddwn eto'n edrych ar nifer y lleoedd a chyflwr adeiladau'r ysgolion.

CWESTIWN – CYNGHORYDD McEVOY

Alla i gael diweddariad ar sicrhau diogelwch y nant ym Mharc Waungron, Y Tyllgoed?

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Fel y cadarnhawyd i chi yn y Cyngor ym Mawrth 2016, mae'r Cyngor fel tiffeddiannwr afonig wedi gweithio gyda Dŵr Cymru i gefnogi ymchwiliadau o ran y nant a byddwn yn gweithio i unioni unrhyw gamgysylltiadau neu ddiffygion draenio.

Mae'r ymchwiliad yn parhau ac, ar ôl ei gwblhau, mae'r Cyngor wedi cynnig cyfarfod 'camau nesaf' gyda nhw mewn perthynas â'r nant.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD MERRY

Felly dechreuodd yr ymchwiliad ym Mawrth 2016 ac mae hi bellach yn Fehefin 2017, credaf y byddai'n rhesymol i'r ymchwiliad hwn fod wedi'i gynnal. Es i i'r nant yn ddiweddar ac mae llawer o bryderon ymhlith trigolion, mae'n drewi, mae'n fudr ac mae'n berygl iechyd. Allwch chi amlinellu amserlen i ddelio â hyn?

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Alla i ddim oherwydd nad ein ymchwiliad ni yw hwn, mater i Ddŵr Cymru ydyw. Gwnaethon nhw brawf deio 10 diwrnod yn ôl yn cadarnhau nad oedd problem. Nhw sy'n gyfrifol, nhw sy'n trefnu cwblhau'r arolwg, mater iddyn nhw nid y Cyngor ydyw.

CWESTIWN - CYNGHORYDD GORDON

Drwy gyflwyno cam nesaf parthau 20 mya, mae rhai arwyddion wedi'u codi a marciau ar y ffordd wedi'u gosod. Sut mae'r Cyngor am hyrwyddo'r mesur hwn, a groesawn, i drigolion a phobl sy'n gyrru drwy ein hardal?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Mae'n dda iawn gweld y parthau 20mya yn cael eu cyflwyno ac mae llawer ohonom wedi ymgyrchu dros hyn ers hydoedd, ar ôl gorffen y cam hwn, byddwn yn cael ymgyrch gyhoeddusrwydd fawr gan gynnwys chi a'r Cyngorydd Patel gan law ei ward ef yw hi ac mae wedi gwneud llawer o waith i ddechrau'r peth.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD BOYLE

Fel rhan o Gynllun Llifogydd Nant Lleucu, mae Pont Waterloo am gau a bydd nifer o ddargyfeiriadau o ganlyniad ac mae parth 20mya am gael ei osod dros dro mewn niferoedd o strydoedd y'u nodwyd i gael parth 20mya yn y tymor canolig. Oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr gwneud y parth yn barhaol nawr, yn hytrach na'i osod, dirymu a'i ail-osod; os felly a fydddech yn cytuno edrych ar y digwyddiad penodol a gobeithio rhoi'r ateb imi yr wyf yn ei erfyn?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Gwn yr ardal rydych yn siarad amdano ond nid rwy'n siŵr a fyddai'n gweithio gystal i hynny ddigwydd ond byddaf yn ei ystyried.

CWESTIWN – CYNGHORYDD WILLIAMS

Mae traffig yn y ddinas eisoes yn annerbyniol i nifer o drigolion a defnyddwyr y ffordd, gyda llawer o ffyrdd ategol yn orlawn, pa gynlluniau sydd gan y Weinyddiaeth i wella rhwydwaith ffyrdd Caerdydd?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Nid wyf yn cytuno'n llwyr â'r syniad fod pethau'n annerbyniol ond mae hi'n brysur ar adegau brig ond fel arfer does dim trafferth er gwaetha'r twf a dyw hi ddim yn problem i feicwyr.

Ond nid ydym yn cuddio rhag y ffaith bod traffig a nifer y ceir newydd am fod yn anodd dros gyfnod ein gweinyddiaeth ac mae'n rhywbeth rydym yn meddwl amdano ac wedi bod â llygad arno ers y dechrau. Hoffwn eich sicrhau ers dechrau'r rôl hon nag un o'r pethau cyntaf a wnes ac rwyf wedi'i wneud yn rheolaidd yw gofyn i weld mewn manylder y wybodaeth o'r CDLI ynghylch y datblygiadau a sut mae seilwaith

yn cael ei gynllunio a'i gynllunio yn y ffordd gywir. Mewn nifer o ffyrdd fe'i hystyrir yn arwain y DU o ran sicrhau bod pethau mewn lle felly rydym yn canolbwyntio arno. Gallwn siarad am oriau am y ffyrdd rydym yn ei wneud ynghylch beicio, mesrau blaenoriaethu bysus, ond wna i ddim rhowch wybod i mi a oes angen mwy o wybodaeth arnoch.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD WILLIAMS

Diolch am ddod i Bontprennau a Hen Bentref Llaneirwg bythefnos yn ôl i gwrdd â'r Cyngorydd Rees a minnau i drafod rhai o'r heriau sy'n wynebu Gogledd y Ddinas a'n cymuned. Mae hollt modal 50/50 yng Nghaerdydd, nid ydym yn ei wneud ar hyn o bryd felly mae'n hirdymor, felly'r nod byrdymor i dymor canolig yw gwneud mwy i wella a lleddfu tagfeydd yn ein Dinas. Felly a fyddech yn diystyru cyflwyno tâl tagfeydd yn ein dinas dros bum mlynedd nesaf y weinyddiaeth hon?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Diolch am ddangos imi bopeth yno, roedd yn ddefnyddiol iawn. O ran yr hollt modal 50/50, dyw hi ddim yn hirdymor i ni, rhaid ei gwneud yn gynt ac rydym yn cyrraedd y nod o ran teithiau fel canran mewn ceir – mae'n lleihau – ac mae'n rhywbeth rydym yn ei wthio ac ni fyddwn yn diystyrru'r tâl.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD BERMAN

Mae Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae, y cyfeiriwyd ato yn Natganiad yr Arweinydd, yn amlwg yn allweddol wrth dorri ar dagfeydd mewn rhai rhannau o'r ddinas gan gynnwys fy ward i. Fel y nodais yn y datganiad hwnnw cyfeiriwyd at waith sy'n cael ei wneud â Llywodraeth Cymru ar lunio cynllunio ar gamau nesaf Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae.

A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar sut mae'r trafodaethau hyn yn myn drhagdynt a ph'un a oes unrhyw debygolrwydd o sicrhau'r arian y bydd ei angen gan yn amlwg hwnnw yw'r rhwystr mawr yn hyn obeth?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Rydym yn gobeithio erbyn yr ail gam; pan wnaethom agor y cam cyntaf yn didweddar gyda Llywodraeth Cymru roeddem yn siarad am hyn, rydym yn gwybod yr hyn rydym am ei wneud. Yn amlwg mae trafodaethau ehangach ynghylch y Mentro a phrojectau seilwaith trafndiaeth eraill ond mae'n rhywbeth rydym yn gobeithio ei gyflwyno.

CWESTIWN – CYNGHORYDD HOWELLS

Allech chi roi diweddariad ar gynnydd wrth gynnig gwasanaeth llyfrgell llawn i drigolion Adamsdown?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Ymgynghorwyd ym mis Chwefror ar y posibiliad o gynnwys gwasanaeth llyfrgell ynghyd â'r caffî a'r ganolfan wybodaeth yn yr hen gapel yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Cafwyd 781 o ymatebion, gyda 94.3% yn cefnogi gosod gwasanaeth llyfrgell yno.

Rydym wrthi'n aros am ddarluniau diweddaraf y pensaer a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd a ddylai fod ar gael yn fuan iawn.

Dylai penderfyniad ffurfiol ar gyfranogiad y Cyngor yn y project gael ei wneud wythnos nesaf. Ar y pwynt hwn, byddwn hefyd yn gallu gweithio gyda'r pum sefydliad sydd wedi mynegi diddordeb yn adeilad Llyfrgell Y Rhath i fwrw ymlaen â'r cynlluniau manwl.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD HOWELLS

Fel y gwyddoch mae'n dros ddwy flynedd a hanner ers cau Llyfrgell Y Rhath ac rydym heb wasanaeth llyfrgell iawn ers hynny. Mae nifer o drigolion wedi cysylltu â mi dros yr wythnosau diwethaf sydd wedi clywed sïon fod y cynllun arfaethedig a nodwch ddim am gael ei ddwyn ymlaen oherwydd problemau â'r Bwrdd Iechyd.

Allwch chi fy sicrhau nad dyma'r achos a rhoi syniad o bryd y bydd y cynllun iau manwl y cyfeirioch atynt ar gael i Aelodau Lleol Adamsdown a Phlasnnewydd eu trafod â chi?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Gallaf ddweud wrthyf fel y dywedais yn y datganiad y caiff y penderfyniad i gymeradwyo wythnos nesaf felly bydd cytundeb ffurfiol â'r Bwrdd Iechyd ac ni wn am unrhyw bryderon am hynny; mae swyddogion wedi dweud wrthyf heddiw eu bod yn disgwyl bwrw ymlaen a'u bod yn hapus i rannu gwybodaeth am y projectau i adeilad Llyfrgell Y Rhath.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD WILLIAMS

Deallwn yn ein grŵp bwysigrwydd llyfrgelloedd i'n cymunedau. Deallwn yn anffurfiol na chaeir llyfrgelloedd dros y flwyddyn ariannol nesaf. Cyngorydd Thorne, a fyddwch yn ymrwmo i beidio â chau llyfrgelloedd dros gwrs y weinyddiaeth hon.

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Alla i ddim gwneud ymrwymiad dros gwrs y weinyddiaeth hon. Yr hyn alla i ei ddweud yw bod Llafur yn ei manifestio wedi ymrwmo i ddiogelu llyfrgelloedd.

CWESTIWN – CYNGHORYDD STUBBS

A fydd yr Aelod Cabinet yn rhoi gwybod i'r Cyngor pa gamau y gellir eu cymryd i adennill coledion a wnaed gan fusnesau yn Sblot gan Network Rail yn dilyn y gwaith ar dair pont yn yr ardal, sydd wedi costio'n llawer mwy na'r disgwyl?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Bydd Aelodau'n gwybod am y gwaith hanfodol i bontydd sydd wedi cael yn cael ei wneud gan Network Rail ar hyd rheilffordd strategol 'Caerdydd i Lundain'.

Caiff y gwaith hwn effaith sylweddol ar gymunedau lleol ar hyd y coridor trafniadaeth strategol allweddol hwn.

Gan fod gan fusnesau a effeithir gan y gwaith hawl i wneud cais am iawndal gan Network Rail byddwn yn hapus i roi manylion cyswllt perthnasol i Aelodau lleol am hawliau fel rhan o'r broses hon.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD STUBBS

Rwy'n siŵr ein bod oll yn edrych ymlaen at amser pan fydd gan Sblot orsafoedd trên yn ogystal â phontydd rheilffordd.

Ydych chi'n rhannu fy mhryderon am effaith hyn ar amryw fusnesau lleol?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Rwy'n rhannu pryderon Aelodau ac mae unrhyw oedi i'r gwaith yn annerbyniol. Gall y Cyngor ystyried defnyddio pwerau dan adran 74 Deddf Gwaith Ffordd a Strydoedd 1991 i dirwyo Network Rail am unrhyw waith sy'n anamserol. Gallaf gadarnhau i'r Cyngor yn ddiweddar wneud hyn o ran Pont Windsor Road, a thalodd Network Rail ddirwy o tua £150,000. Eto, o ran hawliadau am iawndal gan fusnesau lleol cefnogwn hawliadau priodol.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD HUDSON

Rydym newydd glywed am iawndal gan Network Rail. Pan ofynnais am iawndal i fusnesau a effeithiwyd yn Caerphilly Road a Manor Way dywedodd y Cyngorydd Patel wrthyf nad hwn oedd y ffordd cywir i gwestiynu hynny. Anghytunaf. Hwn yw'r lle i drafod hyn ac roeddwn am wybod gan eich bod chi'n cefnogi hawliadau iawndal gan Network Rail, a fyddwch yn cefnogi hawliadau iawndal gan Gyngor Caerdydd?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Dwi wir ddim yn teimlo mewn sefyllfa i ateb hynny am ein bod yn sôn am hawliadau o bosib yn ein herbyn ein hunain felly rwy'n hapus trafod hyn â chi ar adeg wahanol.

CWESTIWN – CYNGHORYDD PHILIPPA HILL-JOHN

Oes o hyd gynlluniau i ail-agor safle gwastraff y cartref Waungron Road ac os felly ydych chi'n dal yn bwriadu cau safle Ailgylchu Gwastraff y Cartref Heol Wedal ac os felly pryd.

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Nid oes cynlluniau i ail-agor safle Waungron Road fel CAGC.

Bydd Canolfan Ailgylchu Gwastraff Y Cartref newydd Ffordd Lamby yn cael ei hagor yn swyddogol gan yr Arglwydd Faer o 18 Gorffennaf.

Mae dyfodol cyfleuster Heol Wedal dan ystyriaeth a byddwn yn cyfleu ein safbwynt yn fuan.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD PHILIPPA HILL-JOHN

A oes unrhyw ddarpariaeth am gael ei gwneud yn y cyfamser am golli Waun Road i drigolion lleol sy'n peri pryder mawr?

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Credaf fod hyn eisoes wedi'i wneud mewn rhai ffyrdd mae'r Cyngorydd ar y cwrbyn o ran hyn tu ôl i'r cyhoedd. Mae gan Gaerdydd record ailgylchu gorau unrhyw un o ddinasoedd mawr y DU ac rydym am wella ar hyn. Mae ein polisiau'n gweithio'n barhaus a byddwn yn dal i wneud hynny.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD WOOD

Cawsom lawer o ddeunydd yn ystod yr etholiad yn honni y dylai Heol Wedal gael ei chau ac agor safle newydd.

Allwch chi gadarnhau pe'i caeid y bydd y safle newydd yng ngogledd Caerdydd a pha wasanaethau fydd yno?

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais rai eiliau'n ôl.

CWESTIWN – CYNGHORYDD CARTER

Ydy'r aelod cabinet newydd yn bwriadu ailadrodd rhaglen glanhau trylwyr y ward allanol?

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Mae wedi'i hariannu drwy refeniw i lanhau wardiau mewnol ac allanol y ddinas nawr.

Mae Gwasanaethau Cymdogaeth wrthi'n cynnal cylch 8 wythnos newydd yn y wardiau mewnol ac yna yn y wardiau allanol.

Bydd Gwasanaethau Cymdogaeth yn targedu ardaloedd sy'n peri pryder a amlygwyd gan drigolion ac Aelodau Lleol.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD CARTER

Alla i ofyn ai digwyddiad blynyddol neu gylch treigl fydd hon neu ydy hynny eto i'w benderfynu, neu bob pum mlynedd?

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Gallwn alu hynny'n ddigwyddiad rheolaidd a byddaf yn hapus i drafod unrhyw faterion yn eich ward.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD KEITH JONES

Bydd trigolion Llanrhymni wrth eu bodd gan eich ateb heno am iddo wneud cymaint o wahaniaeth glanhau'n drylwyr lefydd strategol fel yr ysgolion cynradd, y strydoedd, canolfan hamdden a'n hardaloedd siopa sy'n dangos bod ots gan y Cyngor am Lanrhymni a bydd y trigolion yn croesawu cyflogeion y cygnor yn ôl i strydoedd Llanrhymni eto.

ATEB – Y CYNGHORYDD MICHAEL

Diolch Gyngorydd am eich llongyfarchion.

CWESTIWN - CYNGHORYDD McGARRY

Beth mae'r cyngor yn ei wneud i helpu i gael pobl ddigartref oddi ar y strydoedd?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gynnig ystod o wasanaethau i'r bobl hyn gan gynnwys bws nos, canolfan ddydd a brechwastau. Mae'r porth llety person sengl yn rhoi mynediad i 45 o welyau argyfwng, 216 lle hostel rheng flaen ac ystod o opsiynau tai cymorth a symud ymlaen.

Rydym wedi ehangu ac ymestyn oriau Gwasanaeth Allgymorth y Cyngor. Bydd gan bawb sy'n cysgu'n y stryd weithiwr allweddol i sicrhau bod gwaith achos gan unigolion a bod cleientiaid anodd eu cyrraedd yn cael cymorth digartrefedd ar y strydoedd.

Rydym hefyd wedi cytuno i nifer o grantiau i bartneriaid yn y trydydd sector i gyflawni atebion tai arloesol i fodloni anghenion cymhleth pobl ddigartref. Mae'n cynnwys dull 'Tai'n Gyntaf' yn unol ag arfer gorau a hefyd broject anghenion cymhleth dwys i'r rhai sydd angen y mwyaf o gymorth i aros mewn llety.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD MCGARRY

Gwn fod pobl yn meddwl fod llawer o bobl ddigartref yma.

Ydych chi'n gweithio gyda phartneriaid i ymdrin â begeriaid, sydd ddim bob amser yn ddigartref, ond pobl heb fynediad i gyllid cyhoeddus fel mewnfudwyr, ydych chi'n gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r broblem?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Ydyn, bu cynnydd enfawr mewn digartrefedd nid yn unig yng Nghaerdydd ond ledled y DU a rhaid mynd i'r afael â hyn. Mae ganddynt anghenion cymhleth, ac mae rhai pobl yn dewis cysgu ar y stryd.

Es i Iftar wythnos i ddydd Gwener yn Neuadd Y Ddinas lle gwahoddwyd pobl ddigartref; siaradais â gŵr a oedd yn wedi dod o Gasnewydd a ddywedodd fod gan Gaerdydd wasanaethau gwell; bws nos fel nad oedd angen iddo chwilota am fwyd. Dywedodd nad âi i Hostel am na theimlai'n ddiogel, dyma pam fod y cynllun newydd hwn lle bydd gan bob person digartref weithiwr achos yn bodoli i drin â'u problemau'n unigol.

Mae angen mynd i'r afael â hyn, rydym yn cynnig llawer o lety ond dyw hi ddim yn ddigon.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD WILLIAMS

Mae digartrefedd yn fater i bawb yn y Siambr hon ac mae gan bob un ohonom ddyletwydd i ymdrin ag ef.

Gan arwain ar eich sylwadau Cyngorydd Thorne, am ddigartrefedd yn cynyddu ledled y DU, pa drafodaethau a gawsoch ag Awdurdodau Lleol eraill yn Ne Cymru, fel y gallwn ymdrin ar lefel ranbarthol â digartrefedd.

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Yn bersonol ar y funud dwi heb gael unrhyw drafodaethau ond rydych chi'n gywir mae'r trafodaethau wedi digwydd am fod llawer o bobl sy'n dod o awdurdodau cyfoagos heb broblem fawr ac felly ddim yn gwario ar wasanaeth; am fod Caerdydd wedi gwneud llawer o ymdrech dros y blynyddoedd a bod gweithio gyda phartneriaid yn cynnig gwasanaeth gwych, mae'n dod yn fagned. Felly mae angen i ni siarad ag awdurdodau cyfoagos i weld beth y gallwn ei wneud i gydweithio ac mynd i'r afael â hyn derbyniad hynny.

CWESTIWN – CYNGHORYDD DRISCOLL

Pa gynlluniau wrth gefn sydd gan y Cyngor i ddelio â sefyllfa a fyddai'n gofyn am adael blocia fflatiau uchel mewn argyfwng yn benodol llety dros dro?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Mae asesiadau risg cadarn ar waith i bob un o flociau fflatiau uchel y cyngor â'r nod o sicrhau y gall y rhan fwyaf o denantiaid aros yn ddiogel yn eu cartrefi os oes tân.

Dylai gadael adeilad, yn ôl yr angen, ddigwydd dan reolaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau y'i gadewir yn ddiogel.

Mae gan y Gwasanaeth Tai weithdrefn digwyddiadau mawr ar waith sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau swyddogion petai digwyddiad mawr yn nhai'r cyngor. Mae'r weithdrefn yn cynnwys gweithio'n agos ag Uned Rheoli Argyfwng y Cyngor i osod canolfannau gorffwys, sicrhau bod y preswylwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac adleoli tenantiaid dros dro yn ôl yr angen.

Mae'r Uned Rheoli Argyfyngau wedi llunio gweithdrefnau gadael a lloch cadarn, llwyddiannus ar y cyd â'r Gwasanaethai Tai, Cymdeithasol, Hamdden, Heddlu De Cymru, Y Groes Goch a'r RSPCA. Yn eu plith mae'r opsiwn o aros mewn gwestai yn y ddinas os gadewir yr adeilad am gyfnod.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD DRISCOLL

Sylweddolaf y bydd adolygu neu ymchwilio'n codi nifer o gwestiynau na ellir eu hateb am sbel. Hoffwn gytuno â sylwadau datganiad Huw Thomas a'r Arglwydd Faer gynt am ddigwyddiadau erchyll Tŵr Grenfell yn Llundain. Gwn nad dyma'r adeg i sgorio pwyntiau gwleidyddol o'r digwyddiad ond mae cwestiynau teg y teimlaf fod angen eu gofyn.

Rwy'n falch o glywed, fel yr wyf yn siŵr bod trigolion fflatiau yn fach o glywed, fod gan y Cyngor eisoes asesiad adolygu risg cadarn, ac mae'n dda clywed bod y cladin ar naw bloc y Cyngor yn wahanol i un Tŵr Grenfell, fel y nodwyd yn natganiad cynharach yr Arweinydd, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad diogelwch llawn o ddiogelwch tân y naw bloc.

Pryd fyddwch chi'n cyhoeddi'r adolygiad?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Daeth i law'r wythnos hon. Mae angen i ni edrych drosto ac rwy'n hapus i rannu hyn â'r Cyngorwyr, ac unrhyw argymhellion.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD EBRAHIM

Hoffwn gofyn, o ran blociau fflatiau uchel, gyda phobl ag amryw anghenion, a oedd asesiad risg?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Gallaf ddweud yn fy mloc fflatiau uchel fy hun, dim ond 4/5 wythnos yn ôl, gwnaeth y gwasanaeth tân ymarfer gadael adeilad. Gwnaethon nhw ddim gario'r trigolion allan, dim ond dymis, ac roedd yn amserol a gwnaethant brofi'r grisiau i sicrhau y gallant

amgáu mwg ac nad oedd unrhyw fwg yn mynd i'r fflatiau na heibio drysau tân. Ddeuddydd yn ddiweddarach roedd tân yn un o'r fflatiau a sylwyd arno gan y Ganolfan Larwm ac Ymateb sy'n wasanaeth porthor â TCC a gysylltodd â'r Gwasanaeth Tân.

Credaf fod y gweithdrefnau yno i ddiogelu, ond os oes gennych byrderon siarad â mi a byddaf yn ymchwilio iddo.

CWESTIWN – CYNGHORYDD STUBBS

Aelod Cabinet, er fy ethol, rwyf wedi cael llawer o ymholiadau am dai gan etholwyr. Beth ydyn ni fel gweinyddiaeth yn ei wneud i liniaru hyn?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Cytunaf fod angen mawr am dai fforddiadwy'n y ddinas ac angen brys i gynyddu cyflenwad y tai o safon dda. Rwyf i, fel chi, yn cynnal cymorthfeydd bob wythnos a daw pobl sydd ag angen am dai i mewn.

Rydym yn cyflwyno cynlluniau i godi 1,000 o dai cyngor a fydd yn ynni efefeithlon ac wedi'u hadeiladu i safon gofod uchel.

Es yn ddiweddar i Gyngor Lewisham i weld gwaith cyffrous yno i ddatblyhgu safleoedd yn gynt gan ddefnyddio atebion tai arloesol a byddwn yn defnyddio'r dulliau hyn, lle y bo'n briodol, i gyflawni datblygiadau'n gynt.

Rydym hefyd yn gweithio â'n partneriaid cymdeithas tai i godi cymaint o dai fforddiadwy â phosibl drwy gyfraniadau adran 106 ar y safleoedd datblygu mawr yn y ddinas. Amcangyfrifwn y gallem godi cynifer â 6,500 o dai fforddiadwy erbyn 2026.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD STUBBS

Rhaid dweud fy mod wrth fy modd i'r etholiad wobrwyo'r unig blaid yng Nghaerdydd â'r uchelgais i alluogi pob preswlydd gael tŷ fforddiadwy diogel, credaf i bobl gydnabod hynny'n yr etholiad.

Ond gofynnwn i chi barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y cynlluniau cyffrous hyn ac a ymrwymwch i ddod i'r siambr hon yn fuan i sôn am y cynnydd.

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Byddai'n bleser gwneud, a hoffwn rannu cymaint ag y gallaf o'r wybodaeth hon am fy mod yn gyffrous amdani ac yn sicr y byddech chi hefyd.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD CARTER

Fe'm difyrwyd braidd gan gwestiwn atodol y Cyngorydd Stubbs. Credaf fod pob plaid, er efallai nid y Torïaid, ond credaf fod pob plaid hefyd yn ymrwymedig i dai. Argymhellom 1600, o ystyried cyn lleied â godwyd y tro diwethaf mae'n ddongiol y gallwch ddweud hynny, Gyngorydd Stubbs.

Fy ngwestiwn ategol i yw bod croeso i 1000 o dai – mae'n ymrwymiad gwych – pa gamau a gymerwch i sicrhau y bwrir y targed hwn dros y cyfnod pum mlynedd hwn, gan ei adolygu i sicrhau nad fyddwn mewn sefyllfa fel yr oeddem y tro diwethaf, pan gyrhaeddodd benllanw'r pum mlynedd heb godi unrhyw beth?

ATEB – CYNGHORYDD THORNE

Roeddwn yn siomedig iawn iddi gymryd mor i chi sefydlu Cynllun Partneriaeth Caerdydd oherwydd y ddeialog gystadleuol. Teimlaf yn llawer mwy hyderus a dyma pam fy mod yn gyffrous am fod yr eiddo a welsom wedi'u hadeiladu gan ffatrïoedd a'r amser i ddod o'r ffatri oedd 6-12 wythnos i greu safle adeiledig datblygedig. Pan fo problemau tir, mae'n ei gwneud yn haws datblygu pam eich bod yn adeiladu ar slabiau croncrid. Gall yr eiddo fod yn barhaol neu dros dro a'u symud deirgwaith felly pan fo tir nad ydym yn bwriadu ei ddatblygu am 6/7 mlynedd gallwn roi eiddo dros dro arnynt.

Rwy'n obeithiol iawn ac yn uchelgeisiol iawn i o leiaf fwrw'r targed hwnnw os nad rhagori arno.

CWESTIWN – CYNGHORYDD KELLOWAY

Pa drafodaethau gawsoch â Bws Caerdydd i wella rheoleidd-dra gwasanaeth bws rhif 13?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Ymddengys y bu rhai problemau yno oherwydd gwaith mawr ar Bont Trelái a gwaith cyfleustodau hanfodol i Grand Avenue, Trelái ond gobeithio nad oedd y trigolion yn rhy flin am oedi ac ati.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD KELLOWAY

Codaf hyn am taw dyma'r broblem fwyaf yng Nghyncoed ar y funud. Ar ôl arolwg diweddar a gynhaliais yng Nghyncoed, dywedodd 70% o ymatebwyr fod y gwasanaeth bws presennol yn annigonol a dywedodd 85% y gellir ei wella.

Allwch chi ysgrifennu ataf i roi gwybod i mi sawl gwaith y mae bws rhif 13 wedi'i ganslo neu ei ohirio dros y chwe mis diwethaf gan fod nifer o drigolion lleol yn dweud taw dyma'r achos fel arfer?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Byddaf yn trafod hyn â Bws Caerdydd ac yn rhoi'r wybodaeth i chi.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD EBRAHIM

Hoffwn ofyn, mae gwasanaeth bws da yn Butetown, ond dim ffordd i fysis basio'i gilydd; mae tagfeydd ar Stryd Bute, plant yn hwyr o'r ysgol, onid oes angen delio â hyn ar fyrder?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Rydych chi newydd ei chodi felly dyma ni. Gwn ein bod yn mynd yno i edrych ar rywfaint o'r gwaith yn yr ysgol newydd, sy'n cyd-fynd rhywfaint, a chawn weld bryd hynny.

CWESTIWN – CYNGHORYDD ALI AHMED

Amlinellwch lwyddiant Rownd Derfynol Cynghrair Y Pencampwyr a'ch uchelgais i wneud cais am ddigwyddiadau eraill?

YMATEB - CYNGHORYDD HUW THOMAS

Mae consensws cyffredinol fod Cynghrair y Pencampwyr wedi bod yn llwyddiannus enfawr i'r Ddinas ac i tua 200 miliwn o bobl ledled y byd wyllo'r digwyddiad, nifer heb glywed am Gaerdydd cyn hynny, a daeth dros 300,000 o bobl i'r Ddinas ar y dydd yn cynhyrchu dros £45m i'r economi leol. Credaf y gallwn oll gytuno ei bod yn llwyddiant a hanner i'r Ddinas. Yn ddi-os bydd llwyddiant y digwyddiad yn ein helpu i ddatblygu a denu mwy o ddigwyddiadau i'r Ddinas, credais ei bod yn ddifyr wrth dynnu cladin Cynghrair Y Pencampwyr ein bod yn gosod mwy i groesawu Bangladesh a Seland Newydd yma i chwarae criced fel rhan o'r ICC ac mae'n llwyfan i'r peth dydy.

Mae aera amlbwrpas newydd dal yn ganolog i'n strategaeth digwyddiadau i helpu i ddenu mwy o ddigwyddiadau a sicrhau bod y buddion yn cael eu teimlo'n fwy ar draws y dinas-ranbarth.

Rydym hefyd yn awyddus fel gweinyddiaeth i sefydlu digwyddiad cynhenid mawr i'r ddinas i'w arddangos yn rhyngwladol. Gwelsom oll effaith wych y digwyddiad Roald Dahl y llynedd ac rydym yn awyddus i greu digwyddiad tebyg.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD ALI AHMED

Rwy'n bles iawn clywed am eich uchelgais i ddyfodol y Ddinas. Ryw'n siomedig i rai o'n busnesau lleol golli allan ar Rownd Derfynol llwyddiannus Cynghrair Y Pencampwyr yng Nghaerdydd.

Rwy'n siŵr bod CPDC am fod yn rhan o gais yn y dyfodol ehangau cymdeithasau pêl-droed y DU i gynnal twrnaint mawr yn y DU. A fydddech yn cefnogi CBDC i ddenu digwyddiad mawr i Gaerdydd am inni ddangos y gallwn gynnal un o ddigwyddiadau mwyaf y byd eleni er bod y Brifddinas leiaf yn y Byd. Fydddech chi'n cefnogi'r CBDC?

YMATEB - CYNGHORYDD HUW THOMAS

Bûm yn trafod â CBDC am beth sydd nesaf i'r Ddinas, y Brifddinas a CBDC. Bydd 150 mlwyddiant CBDC dros y ddegawd nesaf a byddai'n briodol nodi hyn drwy ddenu digwyddiad o faint tebyg i Gaerdydd felly mae gennym ddiddordeb mawr wrth roi unrhyw gymorth y gallwn fel Cyngor i gyflawni hyn.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD ROBSON

Mae'ch uchelgais yn ddifyr ac edrychaf ymlaen at glywed mwy o fanylion. Ond a rhoddwch bwysau ar gydweithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddechrau bod ag uchelgais am bethau fel cais Gemau'r Gymanwlad Cymru a phethau eraill a allai fod o fudd i Gaerdydd ac i Gymru?

Dros fy oes wleidyddol, canfûm Llywodraeth Cymru'n ddi-uchelgais pan ddaw i ddigwyddiadau o'r fath - yn rhoi Cymru a Chaerdydd ar y map – ac fel Arweinydd newydd Caerdydd mae gennych rôl allweddol wrth eu cael i gydnabod rôl Caerdydd a Chymru ar y llwyfan rhyngwladol.

YMATEB – CYNGHORYDD HUW THOMAS

Mae'n werth pwysleisio i Lywodraeth Cymru fod yn hanfodol wrth ddod â Rownd Derfynol Cynghrair Y Pencampwyr i Gaerdydd a'i chynnal. Awn cyn belled â dweud na fyddai wedi digwydd heb uchelgais Llywodraeth Lafur Cymru, ac mae llwyddiant a phrofiad Caerdydd ym mhenwythnos cyntaf Mehefin yn dyst i'r berthynas waith weithiol – y dull Tîm Caerdydd a ddatblygwyd rhwng Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cefnogol eraill, gwelwn hyn dro ar ôl tro mewn digwyddiadau mawr sy'n dod i Gaerdydd.

Mae gennym raglen gyffrous ar waith i 2018 a thu hwnt o ran digwyddiadau mawr yn y Ddinas, nifer ohonynt mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac nid oes amheuaeth o gwbl gennyf am uchelgais ac ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru i Gaerdydd.

CWESTIWN – CYNGHORYDD OWEN JONES

Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd Pont Sblot yn cau'n gyfan gwbl am rai wythnosau ym mis Awst a mis Medi. Mae hyn er gwaethaf ymgynghoriadau cynharach a awgrymodd na ddigwyddai hyn fyth. Mae trigolion a busnesau Adamsdown eisoes wedi'u heffeithio'n arw felly mae hyn yn ergyd drom. Sut mae'r Cyngor yn cyfathrebu â Network Rail o ran y gwaith parhaus ar bontydd Caerdydd a faint o ddylanwad sydd ganddo dros leddfu'r effaith?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Mae swyddogion y Cyngor yn cysylltu bob dydd â Network Rail o ran gwaith Pont Sblot sy'n cynnwys codi pryderon ar ran cymunedau lleol.

Cytunwyd yn wreiddiol y gwnaed y gwaith ar Bont Splott Road mewn dwy ran dan ffurf dros dro ar Reoli Traffig i gynnal mynediad i'r gymuned leol ac effeithio cyn lleied â phosibl arni.

Ond bellach mae angen i Network Rail cau'r ffordd yn llawn i hwyluso codi dec pont rhannol. Rhaid nodi fod cau am dair wythnos yn welliant ar y cais wyth wythnos gwreiddiol.

Mae swyddogion y Cyngor wedi a byddant yn gweithio gyda Network Rail i leihau effaith cau ffyrdd.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD OWEN JONES

Mae pobl Adamsdown wedi bod yn oddefgar iawn o'r gwaith er gwaethaf ei effaith fawr, y lleiaf y gallwn ei wneud yw sicrhau eu bod yn cael gwybod beth sy'n digwydd ar unwaith. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Cyngor weithio gyda Network Rail i sicrhau ein bod yn cyfathrebu â thriogolion na busnesau mwy sy'n cynnwys cau ffyrdd a pheillio, gair y mae pob Cyngorydd y mae ei ward yn ffinio rheilffordd am ddysgu ei ofni?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Byddaf tad.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD HOWELLS

Rhannaf bryderon fy nghyd-aelod ward achos, er i gau Windsor Road gael effaith, bydd cau Splott Road yn cael effaith fwy. Mae'n brif lwybr bysus drwy'r dref ac mae henoed yn byw yn Adamsdown sydd â gofalwyr yn Sblot, a theuloedd yn byw yn Sblot â phlant sy'n mynd i'r ysgol yn Adamsdown ac fel arall, felly gallai ei ymestyn am fwy na thair wythnos fod yn andwyol iawn i fywydau'r trigolion lleol.

Alla i ofyn os caiff ei ymestyn yn fwy na tair wythnos oes rhaid i chi edrych ar ffyrdd newydd o liniaru hyn wrth ystyried anghenion trigolion lleol yn gyntaf ac nid cymudwyr sy'n defnyddio Adamsdown a Sblot i dorri'r daith?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Mae'n wych eich bod yn dwyn hyn i'n sylw, gallaf eich sicrhau ein bod yn cadw'n llygaid arno'n astud.

CWESTIWN - CYNGHORYDD LAY

Sut gallwn leddfu problemau teithio yn Nwyrain y Ddinas?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Diddordeb oedd gweld ar Week In Week Out un o'r llwybrau bysus aethai drwy'r ardal rydych yn sôn amdani. Fel y gwyddoch dylai'r gwaith rydym yn ei wneud ynghylch EBL helpu a rhowch wybod i ni sut aiff hi wrth i bobl ddechrau dod i'r arfer a'r newid hwnnw.

Mae'r llwybr Beicio newydd yn rhywbeth rydym yn gobeithio ei gyflwyno i'r rhan honno o'r ddinas hefyd ac fel y clywsoch rydym am wneud achos i Lywodraeth Cymru – achos economaidd ar waith ar gam nesaf yr EBL a gwelliannau mawr i seilwaith yn yr ardal honno.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD LAY

Allwn ni sicrhau ein bod yn hyrwyddo opsiynau trafndiaeth amrywiol drwy Ddwyrain Caerdydd e.e. cerdded i'r ysgol, llwybrau diogel i'r ysgol, mwy o lwybrau beicio, llwybrau bysus gwell, trenau ac ati, i leddfu'r problemau trafndiaeth rydym yn eu cael ar hyn ' bryd?

A gytunwch i gwrdd â mi a Chynghorwyr Dwyrain Caerdydd i drafod y materion hyn ymhellach?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Cytunaf ac efallai y gallem gael beic a gweld sut mae hynny'n edrych

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD GRAHAM THOMAS

Hoffwn godi'r mater o'r rhaglen ar BBC Wales neithiwr a gynhaliwyd gan Jason Mohammed ar drafndiaeth yn y Ddinas a'i thwf wrth fwrw ymlaen. Nodwyd gan un o gyfranwyr y rhaglen taw strategaeth y Cyngor i'r Ddinas oedd gwneud ffyrdd y ddinas mor wael fel nad oedd gan yrwyr ddewis ond gadael eu ceir i ddefnyddio trafndiaeth arall.

Allwch chi gadarnhau neu wadu hyn a dweud wrthym y strategaeth i yrwyr i wella rhwydwaith trafndiaeth y Ddinas?

YMATEB – CYNGHORYDD WILD

Gwelais y rhaglen a chredais ei bod yn un ddifyr a defnyddiol. O ran yr hyn a gyfeirioch ato gan Roger Tanner, dwi ddim yn cytuno â'i asesiad a dyw e heb wedi ystod lawn y cynlluniau sydd ar waith fel rhan o'r CDLI y soniais amdanynt i'ch cydweithiwr. Os hofech siarad am y rhain yn fanylach, mae llawer yno ac rwy'n hapus i rannu wrth fwrw ymlaen.

30 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

31 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOL YR AWDURDOD LLEOL

The Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 21 Mehefin 2017.

PENDERFYNWYD –

1. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag presennol

Ysgol	Ward	Dechrau'r Rôl	Ceisiadau a gafwyd
Ysgol Gynradd Allensbank	Gabalfa	18/05/2017	Glen Gilchrist
Ysgol Uwchradd	Gabalfa	18/05/2017	Cyng. Chris

Cathays			Weaver
Ysgol Gynradd Danescourt	Llandaf	01/09/2016	Nisreen Mansour
Canolfan Blant Trelái a Chaerau	Trelái	14/07/2016	Rachel Wrathall
Ysgol Gynradd Glan yr Afon	Llanrhywni	09/02/2017	Beth Poulton
Ysgol Gynradd Grangetown	Grangetown	16/09/2016	Cyng. Ashley Lister
Ysgol Gynradd Hywel Dda	Trelái	03/11/2016	Geoffrey Morgan
Ysgol Gynradd Kitchener	Glan-yr-afon	23/05/2017	Cyng. Kanaya Singh
Ysgol Gynradd Lakeside	Cyncoed	01/02/2017	Cyng. Bablin Molik
Ysgol Gynradd Marlborough	Pen-y-lan	11/01/2017	Rebecca Herrington
Ysgol Gynradd Mount Stuart	Butetown	25/09/2006	Cyng. Saeed Ebrahim
Ysgol Gynradd Oakfield	Trowbridge	04/03/2015	Cyng. Joel Williams
Ysgol Gynradd Peter Lea	Y Tyllgoed	27/06/2016	
Ysgol Gynradd Rhydypenau	Cyncoed	22/05/2017	Cyng. Wendy Congreve
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	Pentwyn	26/05/2107	Steven Erickson
Ysgol Gynradd Tongwynlais	Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	10/05/2017	Cyng. Mike Jones-Pritchard
Ysgol Gynradd Trelái	Trelái	17/05/2017	Alun Morgan
Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad	Butetown	10/05/2017	Rachel Maycock
Ysgol Glan Ceubal	Ystum Taf	01/10/2016	Cyng. Jennifer Burke Davies
Ysgol Gymraeg Nant Caerau	Caerau	28/06/2016	Michael Nelson
Ysgol Gymraeg Treganna	Treganna	01/02/2017	Aled Phillips
Ysgol Pwll Coch	Treganna	27/01/2017 17/02/2017	Cyng. Stephen Cunnah Sarah Lewis

2. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag Awdurdod Lleol yn y dyfodol

Ysgol	Ward	Dechrau'r Rôl	Ceisiadau a gafwyd
Ysgol Gynradd Allensbank	Gabalfa	27/09/2017	Mohammed Ahmed
Ysgol Gynradd Radur	Treganna	26/07/2017	Richard Cook
Ysgol Gynradd Springwood	Pentwyn	28/06/2017	Cyng. Emma Sandrey
Ysgol The Hollies	Pentwyn	25/09/2017	Lisa Gerson
Ysgol Gynradd Allensbank	Gabalfa	27/09/2017	Mohammed Ahmed
Ysgol Gynradd Radur	Treganna	26/07/2017	Richard Cook
Ysgol Gynradd Springwood	Pentwyn	28/06/2017	Cyng. Emma Sandrey
Ysgol The Hollies	Pentwyn	25/09/2017	Lisa Gerson

32 : MATERION AELODAETH Y PWYLLGORAU

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo enwebiadau a phenodiadau a wnaed ers y Cyngor Blynyddol 25 Mai 2017 yn unol â dymuniadau'r Grwpiau Plaid a phenodiadau i Gadeiryddion Pwyllgorau Arferol.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwyo Aelodaeth Pwyllgorau fel y'u nodir ar y daflen ddiwygio:
2. cymeradwyo'r Cadeiryddion Pwyllgorau Arferol canlynol fel y'u nodir ar y daflen ddiwygio: -

Pwyllgor	Cadeirydd
Pwyllgor y Cyfansoddiad	Cyng. Goodway
Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol	Cyng. Hinchey
Pwyllgor Apeliadau'r Cyngor	Cyng. Jim Murphy
Pwyllgor Amodau Cyflogaeth	Cyng. Weaver
Pwyllgor Pensiynau	Cyng. Weaver
Panel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol	Cyng. Merry
Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyieithog	Cyng. Huw Thomas
Cyngor Gwaith	Cyng. Weaver

33 : PENODI I GWEINI AR GYRFF ALLANOL

Cafodd y Cyngor, a chytunwyd iddo gymeradwyo, benodi cynrychiolwyr y Cyngor i gyrff allanol dan Swyddogaethau Dewis Lleol.

PENDERFYNWYD – I'r enwebiadau a gafwyd ar y daflen ddiwygio gan Grwpiau Plaid i'r penodiadau i'r gyrff allanol a restrir yn Atodiad A gael eu cymeradwyo

34 : RHAGLEN CYFARFODYDD 2017 - 2018

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd i Flwyddyn Drefol 2017-2018 a dyddiadau dangosodl cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn ystod y weinyddiaeth hon yn seiliedig ar gylch presennol y cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD –

- (1) cymeradwyo caledr holl gyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a Phwyllgorau i flwyddyn drefol 2017 – 2018;
- (2) nodi dyddiadau dangosodol cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn y dyfodol am gyfnod y weinyddiaeth hon.

(Daeth y cyfarfod i ben am 18.55)